GWOBRWYON SY'N PARA

Dychmygwch yr olygfa - mae'r rhedwyr ar y llinell yn ysu i gychwyn; mae'r dorf yn gweiddi'n groch; mae'r awyrgylch yn drydanol . . . Bu pob un o'r athletwyr yn ymarfer yn ddwys ond un yn unig, sydd wedi cyrraedd pinacl ffitrwydd, all ennill y ras. I lawer, bydd 2006 yn llawn cyffro, gyda llawer o bwyslais ar ragori mewn mabolgampau. Mae'r teledu yn ein galluogi i werthfawrogi'r ymdrech sydd ynghlwm wrth hynny ac i ymuno gyda'r athletwyr buddugol wrth iddyn nhw ddathlu. Bydd cystadleuwyr yng ngemau Olympaidd y Gaeaf, Cwpan y Byd neu Gemau'r Gymanwlad, os yn llwyddiannus, yn ennill cwpanau a medalau. Ond gwobrwyon yw'r rhain sydd ddim yn para. Bydd yr hyn y maen nhw wedi ei gyflawni ymhell o gyrraedd y rhan fwyaf ohonom, ond y mae'r cyfle gennym ni i ennill gwobr fwy byth, hyd yn oed os nad oes gennym fawr o ddiddordeb mewn mabolgampau.

Weithiau mae addysg yn gallu bod yn debyg i fabolgampau. Mae targedau newydd i ymgyrraedd atyn nhw, rheolau newydd, a thlysau newydd i'w hennill. Ond nid ymgais i fod y gorau yw addysg: mae ganddi sawl pwrpas ehangach ac fe ddylai'r rheini gael eu gwerthfawrogi am yr hyn ydyn nhw - datblygiad potensial yr unigolyn a chwilio am wybodaeth a gwirionedd. Mae a wnelo addysg â bod yn ffit yn ysbrydol, yn gorfforol ac yn ymenyddol, gan ddatblygu agweddau iach tuag at eraill ynghyd â ni'n hunain. Mae addysgwyr a dysgwyr Cristnogol yn gwybod, fel Paul yr Apostol, y dylem roi ein holl ymdrechion tuag at ennill y goron fydd yn para am byth.



Gan ddilyn esiampl Paul, dydyn ni ddim yn rhedeg yn ddibwrpas, ond gyda phwrpas; gan wrando am air Duw, sydd yn ein cymhwyso ar gyfer ein bywyd ac sy'n ein darparu ar gyfer y bennaf wobr - i fod gyda Duw am byth.

Mewn mabolgampau, mae llwyddiant yn rhywbeth dros dro. Mewn addysg dylem bob amser annog pobl i weithio er mwyn ennill y gwobrau fydd yn para.

1 Corinthiaid 9. 24-27

Am ymhell dros ganrif, mae Sul Addysg wedi cael ei gydnabod yn flynyddol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ddiwrnod cenedlaethol o weddi a dathliad i bawb ym myd addysg. Caiff y thema ei phenderfynu gan bwyllgor llywio eciwmenaidd sy'n cynrychioli gwahanol enwadau Cristnogol.

Ers rhai blynyddoedd dathlwyd Sul Addysg ar y nawfed Sul cyn y Pasg. Bwriadwyd y syniadau sydd yn y pamffled hwn i gael eu defnyddio fel rhan o nifer o weithgareddau amrywiol ar, neu oddeutu, Sul Addysg. Os na fydd modd i chi neilltuo gwasanaeth cyfan i ymdrin â'r thema ar 12 Chwefror, beth am ddefnyddio rhai o'r syniadau ar achlysur arall?

SUL Addysg 2006

12 CHWEFROR 2006

Yn draddodiadol, mae pob Eglwys Gristnogol yn neilltuo'r nawfed Sul cyn y Pasg ar gyfer Sul Addysg.

GWEDDÏAU

Gweddïwn dros y rhai hynny ar draws y byd sydd yn awyddus i ddysgu, ond sydd heb yr hawl i gael addysg. Gweddïwn hefyd dros y rhai hynny sy'n addysgu, yn enwedig y rhai sy'n gorfod gwneud hynny gyda phrinder adnoddau ac ychydig o gefnogaeth.

Rhown ddiolch am y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd gennym a gofynnwn am dy gymorth i'n hatgoffa faint mwy sydd angen i ni ei ddysgu. Addysga ni i barchu doethineb, lle bynnag y deuwn ar ei thraws. Fel y cerddaist gyda'th ddisgyblion ar y ffordd i Emaus, cyd-gerdda â ni wrth i ni geisio deall.

Agor ein calonnau a'n meddyliau i ddysgu o'r newydd, hyd yn oed pan fydd hynny yn ein herio i newid. Rho ddewrder i ni i drechu anghyfiawnder ac arwain ni tuag at ddyfodol newydd, ar y cyd, ble mae pawb yn cael y cyfle i ddysgu, a phawb yn gallu aeddfedu mewn doethineb a dealltwriaeth.

© Linda Jones, CAFOD www.cafod.org.uk/resources/worship

Arweinydd: Dduw pob amser a doethineb, trwy nerth dy Ysbryd, goleua bob un ohonom wrth i ni addysgu, fel y bo modd i ni ddeall dy air a darganfod dy wirionedd.
Arglwydd, trwy dy Ysbryd:
Pawb: **Deled dy Deyrnas.**

Arweinydd: Dduw ein hysbrydoliaeth, cynnal bawb sydd yn ymarfer eu galwedigaeth yn y byd addysg, boed nhw'n athrawon, arweinwyr neu gynorthwywyr.
Yn ein cymuned gweddïwn dros . . .
Arglwydd, trwy dy Ysbryd:
Pawb: **Deled dy Deyrnas.**

Arweinydd: Dduw ein hangor a'n cefnogwr, gweddïwn dros bawb sydd yn gyfrifol am gynllunio addysg, llunio polisïau a gweinyddiaeth.
Yn ein cymuned gweddïwn dros . . .
Arglwydd, trwy dy Ysbryd:
Pawb: **Deled dy Deyrnas.**

Arweinydd: Dduw adfywiad a thyfiant, rho i bob un ohonom, yn ddysgwyr ac addysgwyr, plant ac oedolion, glustiau sy'n awyddus i wrando, llygaid sy'n barod i weld, dwylo sy'n siŵr o wneud, a chalonnau sydd bob amser yn agored i ddysgu mwy am dy gariad.
Arglwydd yr Eglwys
Pawb: **Gwrando ein gweddi, a gwna ni o un galon a meddwl i'th wasanaethu mewn llawenydd yn dragwyddol. Amen.**

© Y Gymdeithas Genedlaethol, defnyddir gyda chaniatâd

SUL Addysg 2006

Oni wyddoch am y rhai sy'n rhedeg mewn ras, eu bod i gyd yn rhedeg, ond mai un sy'n derbyn y wobr? Fel hwythau, rhedwch i ennill. (1 Corinthiaid 9.24)

SYNIADAU AR GYFER PREGETHAU/ANERCHIADAU

2 Brenhinoedd 5.1-14
(gweler hefyd adnod 15a)

'A yw'r wobr hon yn werth ei chael?'

Mae gan Naaman, milwr uchel ei barch, sydd o bosib yn wynebu 'arwyddion cynnar' ei salwch, y gwahanglwyf, nifer o wersi pwysig i'w dysgu wrth chwilio am iachâd, fel:

- Plant, weithiau, sy'n gwybod orau! (adnod 3)
- Nid y ffrindiau pwysig bob amser yw'r cymorth gorau! (adnodau 6 & 7)
- Bach pob dyn a dybia ei hun yn fawr - os nad ydych yn ofalus! (adnodau 11 & 12)
- Weithiau dim ond y peth bach sydd angen i chi ei wneud! (adnod 13)

Bu bron i Naaman golli golwg ar ffynhonnell syml ei iachâd - oherwydd ei fod yn meddwl bod y gost yn ddirmygus ac israddol. Ond diolch i gyngor amserol gan 'bobl ddinod' cymerodd ddyn Duw ar ei air, a gwnaeth y 'peth bach' y gofynnwyd iddo ei wneud. Trochodd ei hun yn afon Iorddonen seithwaith a chafodd ei gnawd ei iachau.

Trwy wneud hyn enillodd iddo'i hun y wobr fwyaf, a dysgodd ei wers bwysicaf:

- Y wir a'r unig ffynhonnell i gael iachâd yw'r un gwir Dduw (adnod 15a).

RHAI EMYNAU Y GELLIR EU CANU

- Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw – *Caneuon Ffydd 274*
- O Iesu mi addewais - *Caneuon Ffydd 719*
- Brwydra bob dydd - *Caneuon Ffydd 685*
- Un cam bach ar hyd y byd yr af – *Caneuon Ffydd 800*
- Dod ar fy mhen – *Caneuon Ffydd 681*

COLECT

Hollalluog a thragwyddol Dduw, cynydda ynom dy rodd o ffydd fel, gan anghofio'r hyn sydd wedi mynd heibio ac edrych ymlaen at yr hyn sydd o'n blaenau, y gallwn redeg ar hyd ffordd dy ddeddfau ac ennill coron dy lawenydd tragwyddol; trwy Iesu Grist dy Fab, ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, mewn undod â'r Ysbryd Glân, un Duw, yn awr a phob amser. Amen.

Common Worship: Services and Prayers for the Church of England, © Cyngor yr Archesgob 2000, 2004

AWGRYMIADAU PELLACH AR GYFER GWEDDÏAU

Bydd anghenion neilltuol ym mhob cymuned, ond bydd y pwyntiau canlynol o bosib yn arwain at ychwaneg o weddïau:

> Fe fydd gan bob un o'r rhai sy'n ymwneud ag addysg amcan o bwrpas ac fe fyddan nhw'n ymwybodol o alwad Duw ar eu bywydau
> Ein bod yn parhau i ymgyrraedd at y cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy gydol ein bywydau
> Diolch i Dduw mai'r wobr derfynol i bob un ohonom yw gwybod bod Duw yn ein caru.

AWGRYM AR GYFER DARLLENIADAU O'R BEIBL

2 Brenhinoedd 5.1-14 ac 15a
Salm 30
Marc 1.40-45
1 Corinthiaid 9.24-27

◀ *Anna Cox, (12) yn cyrraedd pen abseiliad 90° gyda chymorth hyfforddwr dringo gwirfoddol, Graham Harris*

RHYWBETH I'W DDATHLU GYDA'N GILYDD

SUL Addysg 2006

Dathlwch a chefnogwch addysgu a dysgu yn eich cymuned gan ddefnyddio'r litwrgi hwn ar Sul Addysg. Mae addysgu a dysgu yn digwydd ar sawl lefel felly mae'r fframwaith canlynol wedi ei gynllunio i fod yn hyblyg. Gall, er enghraifft, gael ei ddefnyddio fel rhan o wasanaeth ffurfiol, yn dilyn y bregeth ac yn gorffen gyda'r Tangnefedd.

Defnyddir y gair 'athro/athrawes' yn ei ystyr eang sydd yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda phlant o bob oedran mewn addysg statudol ac addysg wirfoddol.

GALWAD

Ymhen tridiau daethant o hyd iddo yn y Deml, yn eistedd yng nghanol yr athrawon, yn gwrando arnynt a'u holi. (Luc 2.46)

COMISIWN

Mae'r arweinydd yn gwahodd pob ysgol, coleg neu Brifysgol sy'n cymryd rhan, a'r rhai sy'n ymwneud â gwaith plant, ieuenctid a chydag oedolion, i sefyll neu ddod ymlaen.

Mae Duw trwy ei ras yn rhoi doniau i'w holl bobl. Yr ydych chi wedi derbyn y ddawn i addysgu, cynnal ac annog pobl ifainc. A wnewch chi bopeth a allwch i alluogi'r ddawn honno i aeddfedu a blodeuo ynoch, a'i defnyddio i drawsnewid bywydau?

Pawb: **Gyda chymorth Duw fe wnawn.**

Mae Duw trwy ei ras yn ein galw i weithio drosto mewn sawl ffordd. A wnewch chi wrando ar ei alwad a bod yn deilwng o'ch galwedigaeth?

Pawb: **Gyda chymorth Duw fe wnawn**

Mae Duw trwy ei ras wedi eich galw i fod yn dyst Cristnogol yn eich ysgol, yn eich cartref, yn eich eglwys ac yn eich gweithle. A wnewch chi addo bod yn dyst ffyddlon i'ch galwad Gristnogol?

Pawb: **Gyda chymorth Duw fe wnawn.**

Dad Cariadus, ffynhonnell pob gwybodaeth a gwirionedd, rho i bawb sy'n addysgu, ac sy'n annog pobl ifanc, ddoethineb, nerth a thosturi ym mhopeth a wnânt; a chaniatâ i bawb sy'n dysgu fod yn agored i'th nerth trawsnewidiol: yn enw Iesu Grist. **Amen.**

Busnes rhyfeddol ond anodd yw dysgu byw,
Arglwydd:
Dysgu gwybod a deall,
Dysgu caru a gofalu.
Rydyn ni'n aml yn brin o'r nod,
Ond rwyt ti'n ein hannog i geisio a cheisio eto.
Felly, tywys ni at y diwrnod hwnnw
Pryd y byddwn ni'n adnabod ein hunain fel y cawn ein hadnabod,
Ac yn caru fel y cawn ein caru,
Dydd llawenydd dy deyrnas.
Gofynnwn hyn yn enw a gras Iesu.
Amen.

Eistedd neu ddychwelyd i'r seddau

GWEDDÏAU

Dduw ein Tad, gweddïwn dros bawb o'r rhai hynny sy'n helpu plant i ddysgu ac aeddfedu, yn y cartref, yn yr ysgol ac yn yr Eglwys. Gweddïwn y byddi di'n eu helpu i roi i'r rhai a roddwyd yn eu gofal yr hyder a'r awydd i ddysgu. Arglwydd, gweddïwn yn enwedig heddiw dros …

Arglwydd, yn dy drugaredd,
***Pawb*: gwrando ein gweddi.**

Dduw Cariadus, cofiwn am y rhai sy'n dysgu oedolion ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau a grwpiau ieuenctid. Rho amynedd a thosturi iddyn nhw dros y rhai sy'n wynebu her a chyffro eu glaslencyndod, gan eu helpu i wynebu penderfyniadau anodd wrth iddyn nhw aeddfedu. Arglwydd, cofiwn yn enwedig am …

Arglwydd, yn dy drugaredd,
***Pawb*: gwrando ein gweddi.**

Dduw'r Creawdwr, gweddïwn dros y rhai hynny sy'n gweithio ym mynd Addysg Bellach ac Addysg Uwch ac sy'n dysgu oedolion, gan gofio am Gaplaniaid ac Undebau Cristnogol a'u gweinidogaeth ymysg myfyrwyr. Gweddïwn y bydd myfyrwyr yn agored i'th alwad wrth iddyn nhw gynllunio ar gyfer bywyd ar ôl eu hastudiaethau. Cofiwn yn enwedig am …

Arglwydd, yn dy drugaredd,
***Pawb*: gwrando ein gweddi.**

Dduw Sanctaidd, gweddïwn dros wleidyddion mewn llywodraeth leol a chenedlaethol sy'n llunio ac yn gweinyddu polisïau addysg. Gweddïwn dros arolygwyr, ymgynghorwyr a llywodraethwyr. Rho iddynt hygrededd a doethineb. Gweddïwn yn enwedig dros …

Arglwydd, yn dy drugaredd,
***Pawb*: gwrando ein gweddi.**

SUL Addysg 2006

‘Dylid dathlu Sul Addysg ym mhob plwyf a dylai’r gwasanaeth adael i athrawon Cristnogol gymryd rhan weithredol. Dylai fod yn achlysur pan fydd y clerigwyr yn siarad am yr alwedigaeth i ddysgu ac am werthfawrogiad yr Eglwys o waith athrawon Cristnogol ym mhob ysgol.’

Cyfieithiad o ddyfyniad o’r bennod ‘Teachers, Teachers, Teachers’ yn *The Way ahead: Church of England schools in the new millennium,* sef adroddiad yr Arglwydd Dearing ar gyraeddiadau a datblygiad pellach ysgolion Eglwys.
Mae’r adroddiad cyflawn ar gael ar wefan y Gymdeithas Genedlaethol www.natsoc.org.uk

Adnoddau

***Christian Assemblies – Collective Worship for Church Schools,* pfp publishing**
***Creative Assemblies for Key Stage 1,* Heather Baker, Scripture Union**
***Ready-Made Assemblies about Famous People,* Scripture Union**
***Values in Sport,* Scripture Union**
www.natsoc.org **(Amlinelliad o Gydaddoli)**
www.christiansinsport.org.uk
www.rejesus.co.uk
www.adventureplus.org.uk

ARWAIN ADDYSG GYDA BWRIAD CRISTNOGOL

Gwasanaeth addysg Eglwys Loegr a’r Eglwys yng Nghymru yw’r Gymdeithas Genedlaethol. Cafodd ei sefydlu yn 1811 er mwyn darparu addysg i bawb. Heddiw mae’r Gymdeithas Genedlaethol yn amcanu i gefnogi pawb sy’n ymwneud ag addysg Gristnogol ac sy’n addysgu Addysg Grefyddol. Mae’n gweithio’n glos gyda Byrddau Addysg yr Esgobaethau, athrawon, prifathrawon a phrifathrawesau, llywodraethwyr ysgol, Arolygwyr Ysgolion Eglwys, caplaniaid a chlerigwyr, gan ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor.
Cafodd y daflen hon ei chynhyrchu gan y Gymdeithas Genedlaethol. Mae’r daflen hefyd ar gael ar wefan y Gymdeithas Genedlaethol
www.natsoc.org.uk

Y Gymdeithas Genedlaethol
Church House
Great Smith Street
London SW1P 3NZ
Ffôn: 020 7898 1518
Ffacs: 020 7898 1493
e-bost: info@natsoc.c-of-e.org.uk
neu ymwelwch â’n gwefan: www.natsoc.org.uk

Mae eich cefnogaeth yn amhrisiadwy er mwyn galluogi’r Gymdeithas i barhau â’i gwaith gwerthfawr ym myd addysg yn yr unfed ganrif ar hugain.

Cefnogwch ni:

- Trwy ddod yn aelod o’r Gymdeithas Genedlaethol.
- Trwy eich gweddïau.
- Trwy ledaenu’r newyddion am ein gwaith.
- Trwy gyfrannu’n rheolaidd neu trwy wneud casgliad ar Sul Addysg.
- Trwy adael cymunrodd i’r Gymdeithas.

ATODIAD AR GYFER SUL ADDYSG - CYHOEDDWYD AR Y CYD GAN

Cymdeithas Athrawon Cristnogol, 94a London Road, St. Albans, Hertfordshire AL1 1NX *www.christian-teachers.org*
Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, Baptist House, 129 Broadway, Didcot, Oxon OX11 8RT *www.baptist.org.uk*
Yr Eglwys Gatholig Gwasanaeth Addysg y Pabyddion, 39 Eccleston Square, London SW1V 1BX *www.catholiceducation.org.uk*
Y Gymdeithas Genedlaethol (Eglwys Loegr), Church House, Great Smith Street, London SW1P 3NZ www.natsoc.org.uk
Yr Eglwys Fethodistaidd, Education Office, 25 Marylebone Road, London NW1 5JP *www.methodist.org.uk/sundays*
Byddin yr Iachawdwriaeth, Schools and Colleges Information Service, UK Territorial HQs of the Salvation Army, Newington Causeway, London SE1 6BN *www.salvationarmy.org.uk/schools*
Mudiad Myfyrwyr Cristnogol, Unit 308F, The Big Peg, 120 Vyse Street, The Jewellery Quarter, Birmingham B18 6NF *www.movement.org.uk*
Yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig, 86 Tavistock Place, London WC1H 9RT *www.urc.org.uk*

A’r flwyddyn nesaf ... bydd Sul Addysg ar 4 Chwefror 2007

Cyfieithiwyd i’r Gymraeg gan y Parchedig Tegid Roberts, Cyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Bangor

Argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018